Gaeaf 2009/10

cyswllt teulu cymru
i deuluoedd gyda phlant anabl

mewn **cyswllt**

Cylchlythyr Cyswllt Teulu Cymru

Cymru

Ty fewn

Dathlu Pen-blwydd Cyswllt Teulu ac adroddiad *Ein Teulu, Ein Dyfodol* 1
Llofnodwch i gael ein cylchlythyr yn electronig 2
Gweithdai a Penwythnosau preswyl..... 3
Llwyddiant ymgyrchu! 4
Lansio Cefnogi Cynnar Cymru 4
Diweddariad Plant Anabl yn Cyfri Cymru..... 4
Rhwydwaith o gweithwyr allweddol i deuluoedd..... 5
Costau teithio 6
Mencap Cymru 6
Hyfforddi Darpar Nyrsys 7
Ffurflen Archebu..... 8

Swyddfa Lleol

Cyswllt Teulu Cymru
33-35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB
Ffôn: 029 2039 6624
Ffacs: 029 2039 6625
e-bost: wales.office@cafamily.org.uk
Web: www.cafamily.org.uk
Llinell Cymorth Di-Dal y DU:
0808 808 3555

Dathlu Pen-blwydd Cyswllt Teulu ac adroddiad *Ein Teulu, Ein Dyfodol*

Eleni rydym yn dathlu pen-blwydd Contact a Family UK yn 30 oed a Cyswllt Teulu Cymru yn cyrraedd ei 10 oed.

30 mlynedd o gryfhau teuloedd gyda plant anabl

Ym mis Tachwedd fe wnaethom gynnal digwyddiad dathlu yn y Cynulliad lle dangoswyd 30 ffotograff fel rhan o adroddiad *Ein Teulu, Ein Dyfodol*. Cynhyrchwyd yr adroddiad i gyd-fynd â 30 mlynedd o Cyswllt Teulu ac mae'n cynnwys straeon a ffotograffau 30 o deuluoedd o bob rhan o Brydain y mae ystod o anableddau yn effeithio ar eu plant. Roeddem eisiau rhoi llais i rieni siarad am eu llwyddiannau,

cydnabod yr heriau, trafod eu huchelgeisiau a'u hofnau am y dyfodol, ac yn bennaf oll i ddathlu eu bywyd teuluol.

Hoffem ddiolch i bawb a ddaeth draw i ymuno â ni i nodi'r achlysur.

Mae'r adroddiad ar gael ar-lein yn www.cafamily.org.uk/pdfs/ourfamilyourfuture.pdf neu, os hoffech gopi caled, ffoniwch 029 2039 6624 os gwelwch yn dda.

Teuluoedd Cymraeg sydd yn yr adroddaid

Llofnodwch i gael ein cylchlythyr yn electronig

Derbyniwch ein cylchlythyr drwy e-bost, cadw'n gyfoes a helpu i ostwng ein costau

Diolch i bawb ohonoch sydd eisoes wedi anfon eich cyfeiriad e-bost atom ac sy'n awr yn derbyn y cylchlythyr a chyhoeddiadau eraill yn electronig. Hoffem annog pawb sydd â mynediad i e-bost i wneud hyn, felly byddem yn ddiolchgar iawn pe medrem gael eich cyfeiriad e-bost. Ni fydd derbyn y cylchlythyr yn y ffordd yma yn cael unrhyw effaith ar yr wybodaeth a dderbyniwch a byddwch yn dal i gael eich hysbysu am ddigwyddiadau a gweithgareddau Cyswllt Teulu. Yn ogystal â hyn byddwch yn derbyn diweddariadau rhwng cylchlythyrau.

Anfonwch neges e-bost o'ch cyfeiriad e-bost gan roi "**CYLCHLYTHYR E-BOST**" yn y llinell pwnc at **katie.barrett-goode@cafamily.org.uk**. Fel rhan o'r neges, rhowch eich **ENW, CYFEIRIAD POST** a'r **SIR** lle'r ydych yn byw.

I gael mwy o wybodaeth ar y gwasanaeth yma cysylltwch â Katie ar 029 2039 6624

Gyda phwy i gysylltu

Keith Bowen
Rheolwr Cymru

- Unrhyw faterion yn ymwneud ag ymgyrchu a pholisi cenedlaethol.
- Cysylltu gyda sefydliadau gwirfoddol eraill.
- Hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol.

e-bost: keith.bowen@cafamily.org.uk
Ffôn: 01792 390 203

Katie Barrett-Goode
Swyddog Datblygu Grŵp ac

- Ymholiadau cyffredinol neu unigol yn ymwneud â phlentyn anabl.
- Datblygu grwpiau lleol.
- Taflenni gwybodaeth a chyhoeddiadau.
- Unrhyw beth i wneud â thaflen newyddion neu restr bostio Cyswllt Teulu Cymru.

e-bost: katie.barrett-goode@cafamily.org.uk
Ffôn: 029 2039 6624

Jill Bartlett
Swyddog Datblygu a Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd

- Gweithdai ar gyfer rhieni.
- Dyddiau i'r teulu.
- Digwyddiadau a gweithgareddau.
- Cefnogaeth unigol i deuluoedd yng Ngogledd Cymru.

e-bost: jill.bartlett@cafamily.org.uk
Ffôn: 01248 670965

Gweithdai, penwythnosau a ddangosiadau ffilm

Bu nifer dda'n bresennol yn ein dangosiadau ffilm am ddim i deuluoedd a chawsant eu gwerthfawrogi'n fawr gan deuluoedd ledled Cymru, mae Jill Bartlett yn ysgrifennu.

Cynhaliwyd dangosiadau ffilm yng Nglanyrafon yng Nghasnewydd lle'r oedd nifer ardderchog yn bresennol a digwyddiadau campus yn Chapter yng Nghaerdydd ac yn y Ganolfan Celfyddydau yn Aberystwyth. Ymddengys i Ice Age Three fod yn ddewis poblogaidd gyda llawer o deuluoedd yn mynychu'r gweithdy offer sain wedyn ac yn treulio amser yn sgwrsio dros gwpanaid o de.

Mae digwyddiadau ffilm ar y gweill hefyd yn y lleoliadau dilynol:
Aberdaugleddau, Theatr Torch, ddydd Sadwrn 6 Chwefror 2010
Yr Wyddgrug, Theatr Clwyd, ddydd Sadwrn 20 Chwefror am 2.00pm (dyddiad ac amser newydd)
Caernarfon, Galeri, ddydd Sul 7 Mawrth am 1.30pm

Mae manylion pellach a gwybodaeth archebu ar gael yn y daflen amgaeedig.

Hoffem ddiolch i'r lleoliadau am ddarparu ar ein cyfer a bod mor barod i helpu, yn neilltuol felly Chapter yng Nghaerdydd sydd wedi cydio yn y syniad ac a fydd yn cynnal dangosiadau ffilm rheolaidd ar gyfer teuluoedd gyda phlant anabl. Cynhaliwyd y cyntaf ohonynt ym mis Tachwedd gyda nifer ardderchog yn rhagorol. I gael mwy o wybodaeth ar y dangosiadau hyn, ymwelwch â www.chapter.org.

Dymuniadau gorau ar gyfer y flwyddyn newydd ac edrychaf ymlaen at gwrdd â rhai wynebau newydd yn 2010.

Penwythnosau preswyl

Ynghyd â'r dangosiadau ffilm, cawsom benwythnos preswyl llwyddiannus yng Nglanllyn lle daeth 54 o bobl draw i fwynhau hyfforddiant cadair olwyn. Cawsom benwythnos eithriadol o wlyb ond ni effeithiodd hynny ar yr hwyl a mwynhaodd pawb ei hun.

Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer y penwythnos nesaf yn Llangrannog ar 26-28 Mawrth ac, ymhellach i'r dyfodol, benwythnos i'r teulu yn Stackpole, Sir Benfro, ym mis Mai. Mae mwy o wybodaeth yn y daflen amgaeedig ac mae croeso i chi fy ffonio os hoffech fanylion pellach. Byddaf yn cadarnhau lleoedd fel a phryd y derbyniaf yr ernesau ad-daladwy. Rwy'n sicr y bydd hyn yn ddigwyddiad poblogaidd ac edrychaf ymlaen at gwrdd â theuluoedd newydd bryd hynny.

Rydym yn dal i gynnal gweithdai yn ystod y dydd ac wedi cynnal dau ar Fudd-daliadau ac un arall ar y gweill ar gyfer Sir Benfro ar 14 Ionawr. Cynhelir gweithdy Epilepsi yn Ynys Môn ar 20 Ionawr hefyd. Cysylltwch â mi i gael manylion pellach os gwelwch yn dda.

Diweddariad Plant Anabl yn Cyfri Cymru

Newid Lleoedd llwyddiant ymgyrchu!

Yn ogystal â gwneud yn siwr fod toiledau Newid Lleoedd yn holl adeiladau'r Cynulliad Cenedlaethol, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu £225,000 i osod y cyfleusterau hyn mewn gwahanol leoedd ar draws Cymru. Derbyniwyd enwebiadau ar gyfer y dilynol fel mannau addas:

- Pila Palas, Ynys Môn
- Maes Eisteddfod Gydwladol Llangollen
- Parc Thema Oakwood, Sir Benfro
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd
- Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan

Mae'r holl enwebiadau yn awr yn disgwyl cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Os yw'r cyllid yn caniatáu, gobeithir hefyd y medrir lleoli un ar Faes Sioe Llanelwedd.

Mae www.changing-places.org yn cynnwys lleoliadau presennol ac arfaethedig toiledau Newid Lleoedd ym Mhrydain. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi ariannu partneriaeth rhwng Mencap Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol i ddarparu dau doiled Newid Lleoedd cludadwy. Mae'r rhain yn ddelfrydol ar gyfer gwneud digwyddiadau yn hygyrch i bawb.

Cynlluniwyd y toiledau i fod yn rhwydd i ofalwyr a'r person anabl eu defnyddio, ac maent yn cynnwys hoist drydan, mainc newid y medrir addasu ei huchder, toiled ymaith o'r waliau a digon o le. Mae'r toiledau ar gael i'w benthyg yn ddi-dâl, a dim ond ar gyfer costau cludo a gosod y mae'n rhaid talu.

Am fwy o fanylion am sut i archebu ffoniwch Alli ar 01267 232256 est 310 neu e-bost wales.cpl@mencap.org.uk.

Ymchwiliad Gwasanaethau Cadeiriau Olwyn

Yn dilyn y digwyddiad a gynhaliwyd yn y Senedd ym mis Gorffennaf, mae Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal ymchwiliad ar wasanaethau Cadeiriau Olwyn yng Nghymru.

Ar 25 Tachwedd, aeth Nicki Shercliff, sy'n defnyddio cadair olwyn, a Michael Butterfield a Joanna Davies, rhieni i ddefnyddwyr cadair olwyn, i'r Senedd i ddweud wrth y Pwyllgor sut y teimlant am y gwasanaethau a dderbyniant. Medrwch ddarllen eu tystiolaeth neu edrych ar recordiad ar-lein yn www.senedd.tv.

Medrwch hefyd ddarllen neu edrych ar-lein ar y dystiolaeth a roddodd ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru ar 18 Tachwedd.

Darllen mwy ar wefan y Cynulliad yn http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees. Cysylltwch â ni os ydych yn cael anhawster dod o hyd i'r wybodaeth fel y medrwn eich cyfeirio at y dudalen berthnasol.

Lansio Cefnogi Cynnar Cymru

Lansiwyd Cefnogi Cynnar yng Nghymru yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd ym mis Medi. Roedd nifer dda'n bresennol ac roedd yn gyfle gwerthfawr i gyfranogwyr glywed drostynt eu hunain am yr effaith posibl y medrai Cefnogi Cynnar ei gael yng Nghymru. Roedd yn gyfle hefyd i gyfranogwyr ystyried beth fyddai ei angen i sicrhau fod Cefnogi Cynnar yn helpu i wella gwasanaethau ar gyfer plant anabl ifanc a'u teuluoedd. Hoffem ddiolch i'r holl rieni a gymerodd ran yn y dydd, yn neilltuol y rhai a fu'n eistedd ar y panel rhieni a dweud eu straeon gystal. Mae'n hanfodol fod rhieni a gofalwyr yn cymryd rhan i wneud yn siŵr fod Cefnogi Cynnar yn digwydd yng Nghymru. Heb ymgyfraniad rhieni a gofalwyr, ni fedrwn fod yn hyderus y bydd Cefnogi Cynnar yn gwneud yr hyn y mae i fod i'w wneud ar gyfer teuluoedd plant ifanc anabl. I gael mwy o wybodaeth am Cefnogi Cynnar yng Nghymru, ymwelwch â http://www.childreninwales.org.uk/areasofwork/disability/earlysupport/index.html Os hoffech dderbyn y newyddion diweddaraf ar sut mae Cefnogi Cynnar yn datblygu, ymunwch â'r rhestr bostio drwy gysylltu â Kathy Beach ar Kathryn.beach@childreninwales.org.uk neu ffonio 029 2034 2434

Rhwydwaith o gweithwyr allweddol i deuluoedd

Mae CCNUK yn mudiad rhwydweithio sy'n hybu a chefnogi gweithio allweddol ar gyfer plant anabl ac eu deuluoedd ar draws y DG

Mae CCNUK yn sefydliad rhwydweithio sy'n hyrwyddo a chefnogi gweithio allweddol ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd ar draws y Deyrnas Unedig.

Beth yw gweithio allweddol?

"gwasanaeth, sy'n cynnwys dwy neu fwy o asiantaethau, sy'n rhoi system i blant anabl a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd lle cydlynir gwasanaethau gan wahanol asiantaethau. Mae'n cwmpasu teilwra gwasanaethau unigol yn seiliedig ar asesiad o angen, cydweithio rhyngasiantaeth ar lefelau strategol ac ymarfer a gweithiwr allweddol a enwyd ar gyfer y plentyn a'r teulu. Dim ond os ydynt yn dymuno cael un y dylai teuluoedd gyda phlant anabl gael gweithiwr allweddol."

Beth yw gweithiwr allweddol?

"ffynhonnell cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd a dolen ar gyfer cyrchu a defnyddio gwasanaethau eraill yn effeithiol. Mae gan weithwyr allweddol gyfrifoldeb am gydweithio gyda'r teulu a gweithwyr proffesiynol o wasanaethau ac am sicrhau cynllun gofal rhyngasiantaeth ar gyfer y plentyn a'r teulu"

Pam gweithio allweddol?

Mae teuluoedd sy'n gofalu am blentyn neu berson ifanc anabl yn canfod fod bywyd yn aml yn un frwydr hir. Dangosodd ymchwil dros lawer o flynyddoedd fod gweithio allweddol yn gwneud gwahaniaeth enfawr. Mae'r holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â theulu yn cydweithio. Mae gan y cyfarfodydd ffocws, gydag anghenion y teulu yn y canol. Nid y gweithiwr allweddol yw'r person sy'n gwneud popeth ond yn hytrach y person sy'n gwneud yn sicr y caiff popeth ei wneud. Mae CCNUK yn credu y dylai pob teulu sydd angen gweithiwr allweddol gael un ac rydym yn ymgyrchu i wneud hyn yn realaeth.

Mae aelodaeth o CCNUK yn rhad ac am ddim. P'un ai ydych yn rhiant / gofalydd, person ifanc anabl, gweithiwr proffesiynol neu gefnogydd unigol, mae CCNUK angen aelodaeth gan bawb sy'n cefnogi'r model o weithio allweddol a chydlynu gofal. Ymwelwch â'n gwefan yn www.ccnuk.org.uk i ymuno.

Fodd bynnag, os hoffech gymryd mwy o ran, mae CCNUK yn edrych am:

1. Rieni plant / pobl ifanc anabl sydd ag anghenion cymhleth (0-25 oed) i wasanaethu ar ein Grwp Cymru, sy'n cwrdd tua 4 gwaith y flwyddyn yn Rhaeadr, Powys rhwng 10:30 a 14:00. Medrwn gynnig treuliau teithio os nad ydych yn byw yn un ai Gaerdydd neu Wrecsam (os felly, medrwn gynnig lifft i chi). Rydym yn edrych am rywun sydd â phrofiad o fynychu neu gadeirio cyfarfodydd yn ogystal â gwybodaeth am weithio allweddol.
2. Rhieni plant anabl gydag anghenion cymhleth (0-5 oed) i ddarparu astudiaethau achos ar gyfer cynllun Cefnogaeth Cynnar Cymru. Mae CCNUK yn gyfrifol am lunio a chyflwyno hyfforddiant gweithiwr allweddol i'r ystod oedran 0-5 oed a hoffai ddefnyddio'r astudiaethau achos hyn yn eu hyfforddiant.

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn aelod o Grŵp Cymru neu gymryd rhan mewn astudiaeth achos, anfonwch neges e-bost os gwelwch yn dda at sally.rees@ccnuk.org.uk (os ydych yn byw yng Ngogledd Cymru) neu liz.walker@ccnuk.org.uk (os ydych yn byw yn Ne Cymru). Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Costau teithio

Oeddech chi'n gwybod eich bod chi gallu hawlio costau teithio ar gyfer Pris Tocyn Bws, Pris Tocyn Trên, Petrol ac, weithiau, pris Tacsi os:

- Ydych chi'n hawlio Cymhorthdal Incwm
- Ydych chi'n hawlio Credyd Pensiwn (Gwarant Isafswm Incwm)
- Oes gennych chi Dystysgrif Eithrio Credyd Treth y GIG
- Ydych chi'n hawlio Credyd Treth Gwaith
- Ydych chi'n hawlio Credyd Treth i Bobl Anabl
- Ydych chi'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith
- Oes gennych chi Dystysgrif HC2 neu HC3

Gellir talu pris tocyn y claf yn unig, os bydd claf yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac yn dymuno adennill pris tocyn hebryngwr, rhaid iddo/iddi gyflwyno llythyr doctor i gadarnhau bod angen cael hebryngwr er, yn achos claf sy'n blentyn – bydd pris tocyn yn cael ei dalu i'r plentyn ac un oedolyn yn unig

Gellir talu costau teithio am ddod â'ch plentyn i'r ysbyty a mynd ag ef/hi adref eto, nid ar gyfer pob ymweliad. Er, os ydych chi'n derbyn Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Pensiwn Gwarant Isafswm Incwm ac mae angen help arnoch â chostau ymweld, rhaid i chi lenwi ffurflen SF300 er mwyn gallu eich asesu ar gyfer help gan y gronfa gymdeithasol.

Am fwy o wybodaeth dylech chi cysylltu a swyddfa eich ysbyty neu gofyn i'r staff ar y ward.

Mencap Cymru
Llinell Gymorth Anabledd Dysgu Cymru

Mae Llinell Gymorth Anabledd Dysgu Cymru yn wasanaeth sy'n rhoi cefnogaeth a gwybodaeth ar faterion sy'n effeithio ar bobl gydag anabledd dysgu, eu teuluoedd a gofalwyr ledled Cymru.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys:

- llinell gymorth ffôn neu e-bost
- cynghorwyr rhanbarthol
- cynghorydd budd-daliadau
- gwefan Mencap.

Byddwn yn ceisio'r holl wybodaeth rydych ei hangen i wneud y penderfyniad gorau i chi. Medrwn hefyd roi manylion am sefydliadau eraill a all eich helpu.

Gall y cynghorwyr rhanbarthol eich cefnogi a rhoi gwybodaeth i chi dros y ffôn ffonio, e-bost, postio, ymweliad uniongyrchol, neu gyfuniad ohonynt. Rydym yn cynnwys pob math o bwnc, yn cynnwys ymgyrchoedd, gofal cymunedol, budd-daliadau, addysg, cyflogaeth, teulu a pherthynas bersonol, tai, gwyliau, gwasanaethau ac ati. Rydym yn cynnig gwasanaeth dwyieithog yn y Gymraeg a Saesneg, ac yn defnyddio Llinell Iaith ar gyfer ieithoedd eraill.

Y rhif ffôn yw 0808 808 1111 a medrwch ein ffonio rhwng 10am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 10am a 4pm ar benwythnosau a gwyliau banc. Medrwch anfon neges e-bost atom yn helpline.wales@mencap.org.uk.

Cyfeiriad y wefan yw www.mencap.org.uk/cymru

AWCH Cymru

Mae AWCH Cymru yn elusen fach sy'n seiliedig yn Abertawe ac yn gweithredu ym mhob rhan o Gymru. Caiff ei rhedeg yn llwyr gan wirfoddolwyr a chafodd ei sefydlu yn 1962 gan grwp o rieni a gweithwyr proffesiynol oedd yn pryderu am ddiffyg mynediad rhieni i blant yn yr ysbyty.
Fel rhan o'u gwasanaeth, mae gan AWCH gronfa fach sy'n medru rhoi help cyfyngedig i deuluoedd na all fforddio ymweld â'u plant tra maent yn yr ysbyty, neu fynd â hwy am apwyntiad ysbyty. Medrir cyrchu'r gronfa drwy adrannau gwaith cymdeithasol mewn ysbytai, neu eu hatgyfeirio at AWCH gan weithiwr proffesiynol arall.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch a www.aawchwales.org.uk, neu e-bostiwch awchwales.org@tiscali.co.uk neu ffoniiwch 01792 205227.

Mae Prosiect Cefnogaeth Gofalwyr

Rhondda Cynon Taf yn cynnig gwybodaeth a chefnogaeth am ddim i ofalwyr yn cynnwys:

- Canllaw Gofalwyr A-Y a Thaflenni Gwybodaeth rhad ac am ddim
- Gwasanaeth cwnsela am ddim i ofalwyr
- Dyddiau hyfforddiant am ddim
- Digwyddiadau gwybodaeth am ddim
- Cyfleoedd i gymryd rhan
- Atgyfeiriadau at gynghorwyr budd-daliadau ac asiantaethau eraill

Os ydych yn ofalydd ac yn edrych ar ôl aelod o'r teulu, partner neu gymydog sydd angen eich help oherwydd eu bod yn wael, llesg neu ag anabledd – ac nad ydych yn cael eich talu am y gofal a roddwyd. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth: Rhadffôn Llinell Gofalwyr 0808 100 1801. E-bost carerssupportproject@rctcbc.gov.uk

Hyfforddi Darpar Nyrsys

Rydym eisiau eich barn!

Rwy'n fam o Sir Dinbych ac mae gen i fenyw ifanc 19 oed sy'n dibynnu ar beiriant anadlu a threuliais y 3 blynedd olaf mewn ysbyty yn ceisio llunio pecyn gofal fel y gall ddod adref. Rwyf hefyd yn ddarlithydd nyrsio plant ym Mhrifysgol Edge Hill.

Mae'n rhan o fy swydd i gydlynu cynhwysiant defnyddwyr gwasanaeth i'n hyfforddiant nyrsio. Rwyf wedi ceisio canfod beth mae holl ddefnyddwyr gwasanaeth POB gwasanaeth nyrsio, plant, oedolion, anableddau dysgu, iechyd meddwl a bydwreigiaeth i gael eu cynnwys yn y rhaglen hyfforddiant.

Mae hyn yn gyfle gwych i ni gyd wneud gwahaniaeth gan fod y rhaglenni ar gyfer ein prifysgol eu hailysgrifennu yn 2010.

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe medrech adael i mi wybod yr hyn y teimlwch sy'n bwysig i ddarpar nyrsys ei wybod.

Medrir cysylltu â fi drwy e-bost yn bewleyt@edgehill.ac.uk neu ar 07734086655 neu drwy gysylltu â thudalen gwefan teulu ar Facebook.

Diolch
Toni

Ysgol i Rieni Craig y Parc

Mae'r Gwasanaeth Ysgol i Rieni yn wasanaeth am ddim ar gyfer teuluoedd plant sydd â pharlys yr ymennydd ac anableddau eraill cysylltiedig â modur. Mae'r Ysgol i Rieni yn seiliedig yn Ysgol Craig y Parc ger Caerdydd – ysgol arbennig annibynnol a gaiff ei rhedeg gan Scope.

Nod y gwasanaeth yw galluogi rhieni ac aelodau eraill y teulu i gael mwy o ddealltwriaeth o sut mae parlys yr ymennydd yn effeithio ar eu plentyn, i gefnogi'r rhiant i ddysgu sut i wneud gweithgareddau dydd i ddydd gyda'u plentyn - chwarae, hunan ofal ac ati, i'w helpu i annog eu plentyn i ennill mwy o annibyniaeth, i roi rhwydwaith o gefnogaeth i rieni a theuluoedd a lle'n addas i roi arweiniad a chefnogaeth gyda'r broses asesu a datganiadau statudol. Nod y gwasanaeth yw darparu addysg gynhwysfawr blynyddoedd cynnar sy'n addas ar gyfer oedran, gallu ac anghenion y plentyn ac yn arwain at ddatblygu sgiliau modur, cyfathrebu, cymdeithasol ac addysgol.

Mae'r gwasanaeth yn seiliedig ar arfer ac egwyddorion Addysg Symbylol ac yn cynnwys mewnbwn therapiwtig briodol gan ffisiotherapyddion pediatrig, therapyddion lleferydd ac iaith a therapyddion galwedigaethol. Y nod yw darparu gwasanaeth holistig seiliedig ar chwarae mewn cysylltiad ag elfennau allweddol y Cwricwlwm Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar.

Ynghyd â'r addysg ar gyfer y plentyn, rhoddwn gefnogaeth a chyngor i'w teuluoedd gan weithio gyda gweithwyr proffesiynol cysylltiedig i sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer pob plentyn. I gael mwy o wybodaeth ar yr Ysgol i Rieni, cysylltwch ag Anne Rhodes ar 07974 837358

Ffurflen Archebu Cyswllt Teulu

Enw _____ Mudiad (os ym mherthnasol) _____
Ebost _____ Sir _____
Fe hoffwn ni dderbyn fersiwn trydannol o'r cylchlythyr trwy ebost ☐
Cyfeiriad _____
Côd post _____ Rhif ffôn _____
Mae copiau cyntaf o'r tafenni ffeithiau i gyd yn di-dal, er y codir tâl o 50 ceiniog yr un am gopïau ychwanegol oni bai y datgenir yn wahanol)
Fe hoffwn gael fy nghynnwys ar eich rhestr bostio ☐

Y mae yna amryw o daflenni gwybodaeth yn y Gymraeg ar gael ar ein gwefan www.cafamily.org.uk

Pan fo ar eich plentyn anghenion ychwanegol **(£1.00 am bob copi ychwanegol)** Pecyn Gwybodaeth Budd-daliadau a Credydau Treth (yn cynnwys nifer o daflenni feithiau)	
Pecyn Gwybodath Teulu – brodyr a chwiorydd – neiniau a teidiau – tadau – perthnasau	
Pecyn Gwybodath Teulu – brodyr a chwiorydd – neiniau a teidiau – tadau – perthnasau	
Pecyn Amdano ddiagnosis – (cael neu byw heb ddiagnosis, ymddygiad, cyflyrau genetig a mwy)	
Gwyliau, Chwarae a Hamdden	
Pontio	
Anghenion Addysgol Arbennig – Cymru	
Lwfans Cynhaliaeth Addysg	
Y GIG a gofalu am blentyn anabl	
Ynglyn â theuluoedd sydd â phlentyn anabl	
Canfod a thalu am ofal plant	
Gweithio	
Cymhorthion, Cyfarpar ac Addasiadau	
Gwasaneathau plant anabl yn Lloegr a Cymru	
Ymdrin â Dyled – Cymru a Lloegr	
Arweiniad y Gaeaf : cymorth gyda biliau tanwydd a chadw'n gynnes	
Cael taliadau uniongyrchol tuag at eich plentyn anabl (Lloegr a Chymru)	
Arian pan fo eich plentyn yn cyrraedd 16	
Arweiniad o ran delio gyda bwlio: ar gyfer plant anabl	
Cysgu	
Bwydo a Bwyta	
Hyfforddiant pot/toiled	
Addysg Rhyw a Pherthnasau ar gyfer pobl ifanc sydd ag anableddau corfforol: llyfryn ar gyfer athrawon	
Tyfu'n oedolyn, rhyw a pherthnasau: llyfryn i gymorth rhieni plant anabl ieuainc	
Tyfu'n oedolyn, rhyw a pherthnasau: llyfryn ar gyfer pobl anabl ieuainc	
Taflenni wybodaeth cyffredinol Cyswllt Teulu Cymru – Gweithdai – Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd ayyb.	
Taflen wybodaeth: Canfod Gwybodaeth Feddygol ar y Rhyngrwyd	
Ffurflen archebu Cyfeirlyfr Cyswllt Teulu	
Rhestr wirio rieni – esboniad syml o'r help sydd ar gael i rieni	

A fyddech cystal â dychwelyd y ffurflen hon i Cyswllt Teulu Cymru, 33-35 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF10 5EB neu ffoniwch inni ar 029 2039 6624 neu anfonwch e-bost at katie.barrett-goode@cafamily.org.uk